# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 12FED MEHEFIN, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 6 Mehefin 2017)

## PWYLLGOR PENSIYNAU

### AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Aled Ll. Evans | Simon Glyn | Peredur Jenkins |
| Peter Read | | |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | John Pughe Roberts |

## Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd

Stephen W. Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

Cynghorydd John Griffith Cyngor Mon

(Cyngor Bwrdeistref Conwy – i'w gadarnhau)

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2017/18

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2017/18

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 16.3.2017 fel rhai cywir

**7. PWL BUDDSODDI CYMRU** 7 - 9

I ystyried adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Cyllid

**8. CYNHADLEDDAU PENSIYNAU** 10

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**9. DYDDIADAU CYFARFODYDD PENSIYNAU** 11 - 13

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**PWYLLGOR PENSIYNAU 16.03.2017**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman (Cadeirydd), Simon Glyn, Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Tudor Owen a John P. Roberts

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eraill a wahoddwyd: Cynghorydd Aled Evans (Aelod Bwrdd Pensiwn – arsylwi)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Trevor Edwards, Peredur Jenkins, H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn) a Glyn Thomas

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 19eg o Ionawr fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2017/18**

Yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth wrth reoli'r trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyriwyd y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) Cyngor Gwynedd am 2017/18, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn. Cafodd DSRhT Cyngor Gwynedd am 2017/18 ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2017.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor, i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol yr Awdurdod o'r 1af o Ebrill ymlaen. Eglurwyd bod cronni'r llif arian yn denu llog uwch ac yn isafu costau bancio.

Amlygwyd bod yr arian yma yn cael ei fuddsoddi gyda gwrthbartion yn unol â'r DSRhT er mwyn uchafu dychweliadau. Nodwyd bod cyfraddau llog bellach yn isel iawn ac felly dulliau creadigol eraill o fuddsoddi yn cael eu hystyried. Cadarnhawyd hefyd mai cadw'r Gronfa yn saff a gwarchod yr arian yw'r flaenoriaeth ac nid cymryd risg.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD**

- **cymeradwyo’r Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys a’r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol am 2017/18, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**

- **gofyn i’r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i’r Cyngor (er nad yw’n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif-arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2017 ymlaen.**

Nodwyd er gwybodaeth, bod cynnig wedi ei wneud i aelodau mwyaf y Gronfa (Cyngor Môn, Conwy a Gwynedd, Y Parc Cenedlaethol a Heddlu Goledd Cymru) i dalu’r elfen lwmp swm o’u cyfraniadau (i ariannu’r diffyg hanesyddol) yn llawn ar ddechrau’r cyfnod tair blynedd. Buasai hyn yn sicrhau gwell dychweliadau i’r cyflogwyr rheiny nac adnau arian mewn banciau, ac hefyd yn rhoi llif arian mwy positif i’r Gronfa Bensiwn.

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO 2017/18 – 2019/20

Adroddwyd i’r Pwyllgor ar yr 19eg o Ionawr 2017, bod gofyn statudol i adolygu a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido erbyn 31.3.2017. Fel rhan o’r adolygiad, rhaid i’r awdurdod gweinyddol, ymgynghori gyda phob cyflogwr sydd yn rhan o’r cynllun, gydag actiwari ac ymgynghorydd y gronfa, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn addas.

Ar 20fed o Ionawr 2017 anfonwyd llythyr ymgynghorol i bob cyflogwr sydd yn rhan o’r cynllun, i actiwari ac ymgynghorydd y Gronfa, ac i gynrychiolwyr Unsain, TGWU (Transport and General Workers Union) a’r GMB (Undeb Gyffredinol Prydain,) yn ymgynghori ar y polisïau a gytunwyd arnynt. Roedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben 28.2.2017.

Adroddwyd bod un ymateb wedi ei dderbyn yn cytuno gyda’r gyfradd cyfraniadau cyflogwyr arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf. Nodwyd bod y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ddi-newid o’r fersiwn a gafodd ei gyflwyno i’r Pwyllgor 19.1.2017. Tynnwyd sylw at yr atodiad oedd yn cynnwys manylion cyfraniadau cyflogwyr a bod y rhagdybiaethau actiwaraidd, wedi’u egluro a’u trafod gyda chyflogwyr yng nghyfarfod Prisiant y Gronfa ar 10/11/2016.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu’r Datganiad Strategaeth Cyllido (DSC) arfaethedig.**

## 7. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI 2017/18 – 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i’r Pwyllgor gymeradwyo’r Datganiad Strategaeth Buddsoddi (sydd yn cymryd lle, mewn enw yn unig, y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi - yn unol â gofynion deddfwriaeth newydd).Ymgynghorwyd a phartïon a diddordeb ond ni chafwyd yr un ymateb o fewn y cyfnod ymgynghori.

Amlygwyd nad oedd cyfyngiadau mewn buddsoddiadau penodol yn y ddeddfwriaeth newydd ac felly nid oedd angen codi cyfyngiadau yn swyddogol. Yn dilyn cyfarfod gyda’r Panel Buddsoddi penderfynwyd ceisio osgoi costau symud asedau drwy sefyll y risg o beidio di -risigio am y flwyddyn yn wyneb sefydlu Pwl Cymru. Nodwyd bod y drafodaeth gyda’r Panel Buddsoddi wedi bod yn un fanwl, dechnegol a petai sefyllfa yn codi o ddi-risg o fewn y tair blynedd nesaf byddai modd ail gyflwyno'r mater i’r Pwyllgor.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r posibilrwydd o lefelau staffio yn lleihau i'r dyfodol ac o ganlyniad, cyfraniadau i'r Gronfa yn lleihau, awgrymwyd y byddai'n werthfawr cael rhagolwg syml o'r sefyllfa drwy gynnig ystadegau yn yr Adroddiad Blynyddol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi arfaethedig.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am y wybodaeth a'u cefnogaeth dros y cyfnod a dymunwyd pob dymuniad da i'r Cynghorydd Margaret Lyon sydd yn sefyll i lawr gyda Chyngor Bwrdeistrefol Conwy.

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 2:30pm

PWYLLGOR: **Pwyllgor Pensiynau**

DYDDIAD: **12 Mehefin 2017**

TEITL: **Pŵl Buddsoddi Cymru**

PWRPAS**:** **Adroddiad Cynnydd**

AWDUR: **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid**

---

**Cyflwyniad**

1. Mae'r adroddiad wedi'i pharatoi i hysbysu Aelodau'r Pwyllgor o'r cynnydd gyda datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru i reoli asedion buddsoddi'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru ar sail gydweithredol. Wrth gwrs, bydd Aelodau a fu ar y Pwyllgor yn 2016/17 yn ymwybodol o'r cefndir.

**Cefndir**

2. Mae'r wyth CPLlL yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ers sawl blwyddyn i adnabod ardaloedd o gydweithredu posib. Adroddwyd i'r Pwyllgor Pensiynau 20 Hydref 2016 ar gynnydd i sefydlu Cerbyd Buddsoddi Cyffredin ar sail wirfoddol.

3. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi nifer o ymgynghoriadau ar reolaeth y buddsoddiadau CPLlL ac yn 2015 datganodd y byddai rhaid i bob cronfa CPLlL yn Lloegr a Chymru ymuno gyda'i gilydd i ffurfio pwlïau buddsoddi, yn hytrach na'r trefniadau presennol ble mae cronfeydd yn penodi rheolwyr buddsoddi eu hunain. Cyflwynwyd cynnig amlinellol gan y cronfeydd Cymreig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn Chwefror 2016 a chyflwynwyd cynigion manwl yn ôl y gofyn ar 15 Gorffennaf 2016. Roedd y cynigion yn cynnwys llythyrau o gefnogaeth oddi wrth Gadeiryddion Pwyllgorau Pensiwn yr wyth cronfa.

4. Yn dilyn hynny, aeth dirprwyaeth o gronfeydd CPLlL Cymru i gwrdd â'r Gweinidog ar 16 Tachwedd 2016, pryd trafodwyd y cynnig a chynnydd diweddar y pŵl. Ar 23 Tachwedd 2016 rhoddodd y Gweinidog gymeradwyaeth ffurfiol i'r Pŵl Buddsoddi Cymru Gyfan. Ysgrifennodd Marcus Jones AS:

   > *"Mae hanes hir o gydweithredu rhwng cronfeydd Cymru, ac maent yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i ddatblygu'r pŵl Cymru gyfan. Rwy'n eich llongyfarch ar y ffi eithriadol o isel 'rydych chi eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer buddsoddi portffolio ecwiti goddefol yr holl gronfeydd Cymreig. Roeddwn hefyd yn falch o weld eich uchelgais i gynyddu'r buddsoddiad mewn isadeiledd. Wedi ystyried eich partneriaeth gref, a'r sefyllfa arbennig Cymru ...... rwy'n falch o gadarnhau fy mod yn fodlon i chi fynd ymlaen yn unol â'ch cynnig terfynol chi."*

   Mae swyddogion a chadeiryddion y cronfeydd pensiwn Cymreig yn parhau i gyd-weithio er mwyn sefydlu Cerbyd Fuddsoddi Cyfunol erbyn 1 Ebrill 2018.

5. Ni fydd y pŵl yn golygu cyfuno’r wyth gronfa. Bydd bob cronfa yn cadw ei hunaniaeth unigryw a bydd yr awdurdodau gweinyddol yn parhau yn gyfrifol am gydymffurfio a rheoliadau cynlyn CPLIL a’r ddeddfwriaeth pensiwn o safbwynt eu haelodaeth. Bydd cyfrifon blynyddol a phrisiadau actiwarial teirblynyddol yn parhau i gael eu paratoi ar gyfer pob cronfa bensiwn unigol a bydd pob cronfa yn penderfynu ar eu strategaeth ariannu (rhaniad y portffolio rhwng categorïau o asedau fel ecwiti, eiddo, ayb).

6. Bydd gan y pŵl gylch gorchwyl cyfyngedig a’i amcanion fel y nodir yn y ddogfen gynnig, fydd:

- Darparu trefniadau pŵlio fydd yn caniatáu i gronfeydd unigol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle’n ymarferol).
- Sicrhau arbedion costau o sylwedd ar gyfer cronfeydd sydd yn cymryd rhan wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi wedi ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn mewn lle i oruchwylio gweithgareddau’r pŵl.
- Gweithio’n agos gyda phwls eraill, er mwyn ymchwilio'r manteision y gall budd ddeiliad yng Nghymru gael o ddatrysiadau pŵlio ehangach, neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.

**Ystyriaethau Llywodraethu**

7. Mae’r cynnig ar gyfer Pŵl Buddsoddi Cymru yn cynnwys sefydlu Cydbwyllgor Llywodraethu sydd yn cynnwys aelodau etholedig o bob awdurdod gweinyddu a gefnogir gan Weithgor Swyddogion. Cynigir hefyd i benodi Gweithredwr a reolir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i ddarparu'r is adeiladwaith ar gyfer sefydlu cerbyd pŵlio ac i reoli’r Pŵl ar ran yr wyth cronfa.

8. Mae gwaith yn parhau gyda therfynau amser tyn i sefydlu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Pŵl, gan gynnwys paratoi’r drafft amgaeedig o gytundeb rhwng-awdurdod (yn cynnwys cylch gorchwyl ar gyfer Cydbwyllgor), y fanyleb ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan y Gweithredwr, a rôl y Gweithgor Swyddogion. Mae ystyriaeth yn cael ei roi hefyd i anghenion y Pŵl ar gyfer cyngor cyfreithiol a buddsoddi arbenigol.

9. Mae’r Cyd-Bwyllgor wedi cyfarfod mewn ffurf gysgodol (h.y. heb hawl i wneud penderfyniadau) fel Grŵp Cadeiryddion ar y Cyd yn ystod 2016 ac ar 11 Ionawr a 20 Mawrth 2017. Mae’r wyth cronfa wedi mabwysiadu’r Cytundeb Rhwng-Awdurdod i sefydlu’r Cyd-Bwyllgor. Mae’r Cytundeb Rhwng-Ardurdod ar gael ar https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s10612/Pwl%20Buddsoddi%20Cymru%20-%20Atodiad%20A.pdf?LLL=1

10. Bydd y Cydbwyllgor yn derbyn adroddiadau ar y broses caffael ar gyfer y Gweithredwr, ac yn argymell apwyntio'r cynigydd gorau o ran cyrraedd gofynion y fanyleb.

11. Mae'r Cytundeb Rhwng-Awdurdod, a sefydlu'r Cydbwyllgor Llywodraethu, wedi creu ymrwymiad cyfreithiol i awdurdodau, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 2 Mawrth 2017.

**Ystyriaethau Cyfreithiol**

12. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer buddsoddiadau cronfa bensiwn a weithredir gan yr Awdurdodau Gweinyddu wedi'i osod gan y "Local Government Pension Scheme (Management and Investment of Funds) Regulations 2009" (ac addasiadau dilynol). Mae'r gyfraith ynglŷn â phensiynau yn gymhleth ac yn arbenigol. Mae arweiniad y Llywodraeth Genedlaethol yn awgrymu bod pŵlio CPLlL yn cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith bresennol (ac wrth gwrs mae canllawiau'r "DCLG" yn mynnu bod cronfeydd yn pŵlio).

**Ystyriaethau Ariannol**

13. Bydd y costau 'gweinyddol' a gyfyd o dan y trefniadau newydd, gan gynnwys costau llywodraethu'r Cydbwyllgor, yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng yr wyth cronfa Gymreig, ond bydd costau 'buddsoddi' dilynol i'w priodoli i fuddsoddiadau penodol, cymesur â'r buddsoddiad.

**Amserlen**

14. Mae'r wyth cronfa pensiwn yng Nghymru wedi dechrau broses caffael ar gyfer Gweithredwr ar gyfer y Cerbyd Buddsoddiadau Cyfunol trwy'r broses Caffael Ewropeaidd ym mis Mawrth 2017. Derbyniwyd wyth ymateb i'r Holiadur Dethol, cafodd rheiny eu hasesu a'u sgorio ym mis Mai 2017. Bydd y Gwahoddiad i Dendro yn cael ei anfon at 6 Gweithredwr dichonol ym mis Mehefin.

**Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r cynnydd yn datblygu Pŵl Buddsoddi Cymru a chynllunio cynrychiolaeth briodol ar y Cydbwyllgor.**

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **Pwyllgor Pensiynau** |
| DYDDIAD: | **12 Mehefin 2017** |
| TEITL: | **Cynadleddau Pensiynau** |
| PWRPAS**:** | **Er mwyn penderfynu ar gynrychiolwyr** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**1.** Mae’r eitem hon gerbron er mwyn hysbysu’r aelodau am Gynadleddau perthnasol a phenderfynu pwy i fynychu ar ran Cronfa Gwynedd.

**2.** Mae’r Cyngor yn danfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

**3.** Mae’r cynadleddau blynyddol i’w fynychu a dyddiadau eleni fel a ganlyn:

**2017**

| | |
|---|---|
| **29 - 30 Mehefin** | **Cynhadledd Ymddiriedolwyr C.P.Ll.L**<br>**Bournemouth** |
| **7 – 8 Medi** | **Copa Buddsoddi LGC**<br>**Casnewydd** |
| **6 - 8 Rhagfyr** | **Cynhadledd Flynyddol LAPFF**<br>**Bournemouth** |

Bydd angen un aelod ar gyfer mynychu’r gynhadledd LAPFF a dau aelod o’r Pwyllgor i fynychu’r ddau ddigwyddiad arall.

**4.** Gofynnir i’r aelodau enwebu unigolion i fynychu’r digwyddiadau uchod.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | **Pwyllgor Pensiynau** |
| DYDDIAD: | **12 Mehefin 2017** |
| TEITL: | **Dyddiadau Cyfarfodydd Pensiynau** |
| PWRPAS: | **Galluogi Aelodau i gynllunio'n briodol** |
| AWDUR: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

**Cyflwyniad**

**1.** Mae dyddiadau nifer o gyfarfodydd Pensiynau wedi cael eu gosod am y flwyddyn hyd at Ebrill 2018 yn barod. Mae'r dyddiadau isod er hwylustod.

**Dyddiadau'r Pwyllgor**

**2.** Y Pwyllgor Pensiynau yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ar gyfer y Gronfa Bensiwn. Mae dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer gweddill y flwyddyn ddinesig fel a ganlyn:

**14 Medi 2017** **Cyfarfod Blynyddol y Gronfa Pensiynau**

Mae'r cyfarfod yma am 2yh yn Siambr y Cyngor. Mae gwahoddiad i gyflogwyr y gronfa anfon cynrychiolwyr i'r cyfarfod hwn. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn i'r rhai sydd yn mynychu ac mae'n gyfle iddynt wneud sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mae gwahoddiad i'r holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn i'r Cyfarfod Blynyddol.

Os oes angen i'r Pwyllgor Pensiynau wneud penderfyniad brys ym mis Medi, bydd cyfarfod Pwyllgor yn cael ei drefnu naill ai cyn neu ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Pensiynau, i ddelio gyda phenderfyniadau yn ystod y flwyddyn, wedi'u trefnu fel a ganlyn:

**9 Tachwedd 2017**

**18 Ionawr 2018**

**15 Mawrth 2018**

Mae aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn arfer mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, fel sylwebydd.

**Dyddiadau’r Bwrdd**

**3.** Cafodd Bwrdd Pensiwn Cronfa Gwynedd ei sefydlu yn 2015, gan gydymffurfio gyda gofynion y Llywodraeth. Mae’r Bwrdd yn gyfrifol am **drosolwg** ar reolaeth a gweithrediad y Gronfa Bensiwn. Nid yw’n gwneud penderfyniadau, ond gellir gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae chwe aelod ar y Bwrdd, tri yn cynrychioli’r cyflogwyr a thri arall yn cynrychioli’r aelodau. Cafodd eu hapwyntio trwy gyfweliad yn unol â threfn sefydlodd y Cyngor llawn.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn yn cymryd rhan pedair wythnos ar ôl cyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau. Mae dyddiadau'r cyfarfodydd am y flwyddyn wedi’u trefnu fel a ganlyn:

**11 Gorffennaf 2017**

**12 Hydref 2017**

**11 Rhagfyr 2017**

**15 Chwefror 2018**

**12 Ebrill 2018**

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau yn arfer mynychu bob cyfarfod o’r Bwrdd Pensiwn, ac yn atebol yno am benderfyniadau’r Pwyllgor.

**Dyddiadau’r Panel Buddsoddi**

**4.** Mae aelodau o’r Pwyllgor Pensiynau hefyd yn aelodau o’r Panel Buddsoddi. Mae’r Panel yn cyfarfod yn chwarterol i graffu perfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Mae hyn yn cynnwys derbyn adroddiadau arbenigol gan reolwyr buddsoddi ac ymgynghorydd y Gronfa Bensiwn. Mae unrhyw argymhellion gan y Panel yn cael ei adrodd i’r Pwyllgor Pensiynau ar gyfer gwneud penderfyniad ffurfiol.

Mae dyddiadau'r Panel Buddsoddi yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

**27 Gorffennaf 2017 (Llundain, teithio 26 Gorffennaf)**

**23 Tachwedd 2017 (Llundain, teithio 22 Tachwedd)**

**22 Chwefror 2018 (Caernarfon)**

**Dyddiadau Cydbwyllgor Pŵl Cymru Gyfan**

**5.** Mae aelodaeth y Cydbwyllgor sydd wedi'i sefydlu er mwyn llywodraethu pŵlio buddsoddiadau dros yr wyth cronfa bensiwn llywodraeth leol Gymreig yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau (neu aelod arall o'r Pwyllgor) o bob cronfa.

Mae dyddiadau ar gyfer y Cydbwyllgor wedi'u trefnu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **29 Mehefin 2017** | **Caerdydd** |
| **18 Medi 2017** | **Sir Gâr (Caerfyrddin)** |
| **20 Rhagfyr 2017** | **Powys (Llandrindod)** |
| **28 Mawrth 2018** | **Sir y Fflint (Yr Wyddgrug)** |
| **18 Mehefin 2018** | **Caerdydd** |
| **25 Medi 2018** | **Gwynedd (Caernarfon)** |

Bydd y cyfarfodydd o 10yb tan 1yp fel arfer, a bydd cyfleuster we darlledu ar gael yn yr holl lefydd uchod.

Mae bob cylch o 4 cyfarfod yn cynnwys un cyfarfod yng Nghaerdydd, un cyfarfod ym Mhowys, a'r ddau gyfarfod arall yn cael eu cynnal yn y 6 lleoliad arall ar sail rota. Mae'r system hon wedi'i gytuno er mwyn uchafu mynediad rhanddeiliaid i'r cyfarfodydd cyhoeddus yma.

Mae Cyngor Sir Gâr wedi cael ei dewis fel awdurdod lletya, a bydd yn trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyd-lywodraethu gyda chyfleusterau cyfieithu llawn.

**Argymhelliad**

**6.** Gofynnir i aelodau nodi'r dyddiadau perthnasol ar gyfer y cyfarfodydd ac i gynllunio'n briodol.